

## Prifysgol Aberystwyth

### Cod Myfyrwyr ar Urddas a Pharch

#### 1 Rhagarweiniad

- 1.1 Mae gan Brifysgol Aberystwyth gyfrifoldeb, yn ôl y gyfraith, i ddarparu amgylchedd gwaith a dysgu lle mae unigolion yn cael eu trin ag urddas a pharch, heb ddioddef gwahaniaethu anghyfreithlon, erledigaeth, bwlio neu unrhyw fath o aflonyddu neu gam-drin. Ni wnaiff y Brifysgol ganiatáu ymddygiad sy'n groes i urddas a pharch ac mae'n disgwyl i'w haelodau drin ei gilydd yn y modd y byddent yn disgwyl i eraill eu trin hwythau, ac i godi'r mater yn uniongyrchol ag unigolion, os oes modd, os yw'r disgwyliadau o ran ymddygiad, yn syrthio'n fyr.
- 1.2 Ni ddylai myfyrwyr, staff nac aelodau'r cyhoedd gael eu trin yn anffafriol na dioddef bwlio neu aflonyddu oherwydd hil, lliw croen, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, crefydd neu gred (neu dim crefydd neu gred), mamolaeth/beichiogrwydd, hunaniaeth rhyw neu statws rhyw, aelodaeth undeb llafur, anabled, cefndir troseddol, neu unrhyw nodwedd warchoddedig arall.

#### 2 Pwrpas

- 2.1 Nod y cod hwn, felly, yw:
- gosod disgwyliadau ymddygiadol eglur i fyfyrwyr ynglŷn â'u cyfrifoldeb i sicrhau urddas a pharch eraill ym mhob gweithgaredd sefydliadol a'r goblygiadau i fyfyrwyr oni bydd y disgwyliadau hyn yn cael eu bodloni
  - hysbysu myfyrwyr o ymrwymiad y Brifysgol i sicrhau eu diogelwch a'u lles ac o'u hawliau os ydynt yn teimlo nad ydynt yn cael eu trin ag urddas a pharch gan eraill
  - cyfeirio myfyrwyr at ffynonellau cefnogaeth a gwybodaeth
  - annog ymddygiad cadarnhaol a defnyddio dulliau anffurfiol i ddatrys problemau, lle bo modd
  - pwysleisio ymroddiad i werthoedd PA a pholisi dim goddefgarwch ar gyfer ymddygiad sy'n groes i urddas a pharch
  - annog unigolion i roi gwybod am bob achos lle nad yw urddas a pharch yn cael eu dangos
  - sicrhau bod pryderon yn cael eu codi'n effeithiol a'u trin yn sensitif, yn gyson, yn brydlon, a chan roi'r sylw dyledus i gyfrinachedd
  - hwyluso cipio data ar gyfer monitro

#### 3 Cwmpas

- 3.1 Dylid defnyddio'r cod hwn wrth ymdrin â honiadau o fwlio, aflonyddu neu ymddygiad arall sy'n groes i urddas a pharch (fel yr amlinellir yn Atodiad 1) sy'n cael eu cyflawni gan fyfyrwyr ar y Campws, neu fel arall, boed yn ystod gweithgareddau'r sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol neu beidio. Mae'n berthnasol i bob myfyriwr sy'n dilyn cyrsiau israddedig ac uwchraddedig a rhaglenni dysgu o bell (yn cynnwys myfyrwyr allanol, a'r rhai hynny sydd wedi tynnu'n ôl dros dro neu yn ysgrifennu traethawd ymchwil).
- 3.2 Mae'r Cod yn gweithio ar y cyd â pholisiau eraill, fel sy'n briodol, e.e. Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol neu Gytundebau Trwyddedau Llety, gan gynnwys achosion o dorri telerau trwyddedau.

- 3.3 Gall myfyrwyr, aelodau staff neu'r gymuned ehangach ofyn am gymryd camau yn erbyn myfyrwyr o dan y cod hwn.

#### **4 Rhoi Gwybod am Bryder**

- 4.1 Mae'r Brifysgol yn ymwybodol y gall fod nifer o bethau a all rwystro pobl rhag rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Felly, gall unigolion ddewis cyflwyno adroddiad dienw neu drydydd parti. Fodd bynnag, atgoffir unigolion fod cyflwyno adroddiad dienw yn golygu ei bod hi'n annhebyg y bydd digon o wybodaeth gan y Brifysgol i gymryd unrhyw gamau ac eithrio casglu data ar gyfer monitro.
- 4.2 Ceir mwy o wybodaeth ar sut i roi gwybod am gonsyrn fan hyn:  
<https://www.aber.ac.uk/cy/student-support/student-dignity-respect/>
- 4.3 Wrth gyflwyno adroddiad, anogir unigolion i fanylu ar y canlyniad a ddymunir a'r dewis gorau ar gyfer datrys. Gall hyn gynnwys cais i beidio â chymryd camau pellach. Lle bydd unigolion yn gwneud cais i beidio â chymryd camau pellach, bydd y Brifysgol yn parchu eu dymuniadau oni bai ei bod o'r farn fod angen diogelu unigolion a/neu er mwyn rheoli risg yn effeithiol.
- 4.4 Os yw'r Brifysgol yn penderfynu bod angen cymryd camau, yn groes i ddymuniadau'r unigolyn, gall hyn gynnwys rhoi gwybod i'r heddlu a/neu gymryd camau disgyblu yn unol â'r polisïau a gyhoeddwyd.
- 4.5 Os yw'r ymddygiad hefyd yn cael ei gyfrif yn achos o dorri cytundeb trwydded llety'r Brifysgol, gellir cymryd camau yn ôl unrhyw drefniadau a gyhoeddwyd er mwyn ymateb i achosion o dorri trwydded.
- 4.6 Wrth benderfynu a ddylid datgelu yn groes i ddymuniad unigolyn, bydd y Brifysgol yn ystyried unrhyw niwed posibl y gallai datgelu heb awdurdod ei wneud i'r unigolyn.

#### **5 Cwynion maleisus neu flinderus**

- 5.1 Anogir unigolion i godi pryderon heb ofni edliw, gan fod yn hyderus y bydd y Brifysgol yn ystyried honiadau o gamymddwyn o ddifrif. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud cwyn faleisus na blinderus, ac ni ddylid defnyddio cwyn i fygwth unigolyn. Gellir dwyn camau disgyblu os yw cwynion maleisus yn cael eu gwneud gan fyfyrwyr.

#### **6 Dewisiadau ar gyfer Datrys**

- 6.1 Mae camddealltwriaethau yn gallu digwydd. Mae hyn yn arbennig o wir mewn cymuned amrywiol o fyfyrwyr â gwerthoedd diwylliannol a rhagdybiaethau gwahanol (e.e. am ofod personol, cyffwrdd a.y.y.b.). Gorau oll os gellir datrys y camddealltwriaethau hyn yn anffurfiol. Lle bo'n briodol, mae'r Brifysgol yn argymhell datrys yn anffurfiol.

##### **6.2 Dewisiadau Anffurfiol**

- 6.2.1 Datrys eu Hunain: Mae'r Brifysgol yn cydnabod gallu myfyrwyr i ddatrys anawsterau eu hunain, a lle bo'n briodol yn argymhell bod y myfyriwr yn mabwysiadu dull anffurfiol drwy godi'r mater â'r unigolyn y mae'n gwneud honiad yn ei erbyn.

## 6.3 Dewisiadau Ffurfiol

- 6.3.1 Oni lwyddir i ddatrys yn anffurfiol, neu os ystyrir bod y problemau'n ddigon difrifol, efallai bydd angen gweithredu'n ffurfiol. Gall hyn gynnwys gofyn i'r Brifysgol weithredu neu gyfeirio'r mater at yr heddlu, neu'r ddau ddewis.
- 6.3.2 Lle bo'n briodol, bydd y Brifysgol yn annog dioddefwyr i roi gwybod i'r heddlu. Lle bydd achos yn cael ei gyflwyno i'r heddlu, mae'n bwysig nad oes unrhyw gamau ar ran y Brifysgol yn tansellio'r broses gyfreithiol nac yn llygru tystiolaeth. Mae'n bosibl, felly, y bydd yn rhaid i'r Brifysgol oedi cyn gweithredu tan ddiwedd unrhyw achosion troseddol, ac eithrio mewn achosion lle bydd awdurdodaeth benodol y Brifysgol yn berthnasol, e.e. llety, seminarau a.y.y.b. neu heblaw am gymryd camau rhagofalus. Byddai cosbau disgyblu arferol y Brifysgol yn berthnasol yn yr achos hwn.
- 6.3.3 Lle nad yw'r unigolyn yn dymuno rhoi gwybod i'r heddlu, neu nad yw'n dymuno i'r Brifysgol gymryd camau disgyblu, bydd y Brifysgol yn parhau hyn oni bai fod angen diogelu unigolion a/neu reoli risg yn effeithiol. Yn yr achosion hyn, gall y Brifysgol gweithredu yn groes i ddymuniadau'r dioddefwr honedig ond, wrth wneud hyn, bydd yn cymryd i ystyriaeth unrhyw niwed posibl y gallai datgelu ei achosi i'r unigolyn.
- 6.3.4 Dylai unigolion sy'n dymuno i'r Brifysgol gymryd camau ffurfiol gyflwyno eu cais yn ysgrifenedig drwy [dscstaff@aber.ac.uk](mailto:dscstaff@aber.ac.uk). Gall camau ffurfiol gynnwys cynnal trafodaeth drwy hwylusydd rhwng y partïon perthnasol ac aelod priodol o staff y Brifysgol i ystyried posibiladau ar gyfer datrys y sefyllfa.
- 6.3.5 Os yw'r ymddygiad hefyd yn cael ei gyfrif yn achos o dorri trwydded llety'r Brifysgol, gellir cymryd camau yn unol ag unrhyw drefniadau a gyhoeddwyd er mwyn ymateb i achosion o dorri trwydded.

## 7 Rheoli risg a chamau rhagofalus

- 7.1 Ym mhob achos, beth bynnag fo dymuniadau'r unigolyn ynglŷn â'r ffordd ymlaen, bydd yn rhaid i'r Brifysgol ystyried yr angen am gamau rhagofalus lle bydd camau o'r fath yn cael eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer diogelu unigolion a/neu reoli risg yn effeithiol. Wrth ddod i benderfyniad ynghylch camau rhagofalus, bydd yr isod yn cael eu hystyried:
- risg ganfyddedig niwed i'r dioddefwr a'r troseddwr honedig neu gymuned ehangach o fyfyrwyr
  - risgiau canfyddedig o gymryd, neu beidio â chymryd, camau rhagofalus
  - natur y camymddwyn honedig
  - amgylchiadau'r digwyddiad
  - amgylchiadau'r unigolion dan sylw
  - barn Gwasanaeth Erlyn y Goron/yr heddlu
  - anghenion y partïon i gyd o ran cefnogaeth
  - y posibilrwydd o'r dioddefwr a'r troseddwr honedig yn dod i gysylltiad â'i gilydd
  - yr angen i sicrhau y gellir cynnal ymchwiliad llawn a chywir yn ddirwystr (gan yr heddlu neu'r Brifysgol)
  - yr angen i amddiffyn y myfyriwr sy'n rhoi gwybod am y mater, y troseddwr honedig neu dystion posibl yn ystod y cyfnod yr ymdrinnir â'r honiad fel rhan o drefn droseddol neu ddisgyblu
  - dyletswydd gofal y Brifysgol a buddiannau a lles yr holl bartïon sy'n ymwneud â'r achos

- sut orau i liniaru'r risg ganfyddedig a sicrhau'r effaith negyddol leiaf posibl ar y cyhuddedig/dioddefwr honedig ac eraill all gael eu heffeithio neu sy'n ymwneud â'r achos
- yr angen i drin yr holl bartïon yn deg ac mor gyfartal â phosibl
- ymarferoldeb a goblygiadau ehangach cymryd camau mewn achosion unigol
- rhesymoldeb a chymesuredd
- ystyrir hefyd ystyriaethau fisa a materion ymarfer proffesiynol

7.2 Gweithredir camau rhagofalus heb ragfarn ar gyfer y myfyriwr y gwneir cyhuddiad yn ei erbyn neu'r dioddefwr honedig neu bartïon eraill fel sy'n briodol. Ni fydd camau o'r fath yn cael eu hystyried yn arwydd o euogrwydd. Gall y camau gynnwys:

- cyfyngu ar y cysylltiad rhwng y myfyriwr y gwneir cyhuddiad yn ei erbyn, y dioddefwr honedig neu dystion posibl
- mynnu bod unrhyw un o'r partïon hyn yn symud i neuadd arall
- gwahardd y myfyriwr cyhuddedig, y dioddefwr honedig neu bartïon perthnasol eraill rhag ardaloedd neu gyfleusterau penodol yn y Brifysgol
- aildrefnu grwpiau tiwtorial/seminar
- atal y myfyriwr cyhuddedig dros dro o'i (h)astudiaethau wrth aros am ganlyniad ymchwiliad gan yr heddlu/ymchwiliad disgyblu.

Nid yw'r rhestr uchod yn holl gynhwysfawr.

7.3 Bydd penderfyniadau ynglŷn â chamau rhagofalus yn cael eu cymryd gan banel ar draws y sefydliad yn cynnwys aelodau o gymuned y Brifysgol sy'n briodol ar gyfer yr achos hwn. Amlinellir manylion aelodau all fod ynghlwm wrth bennu camau rhagofalus yn Atodiad 2. Gellir cynnull y panel gan Bennaeth Gwasanaethau Cymorth a Gyrfaoedd i Fyfyrywyr (neu ei (d)dirprwy) neu'r Pennaeth Llety neu rywun yn dirprwyo ar ran y Pennaeth Llety (i faterion sy'n ymwneud â thorri trwydded llety'r Brifysgol) a gall y panel gwrdd yn yr un ystafell neu'n rhithiol.

7.4 Gall methiant myfyrywyr i gydymffurfio â chamau rhagofalus arwain at osod camau/amodau mwy difrifol neu gamau disgyblu.

## **8 Dyletswydd gofal i droseddwr honedig**

8.1 Seilir dyletswydd gofal tuag at y troseddwr honedig ar ymrwymiad y sefydliad i gydnabod bod yr unigolyn yn ddiheuog nes y'i canfyddir yn euog.

8.2 Wrth ymarfer ei dyletswydd gofal i droseddwr honedig, bydd y Brifysgol yn rhoi sylw dyledus i gyfraith contract a chyfraith defnyddwyr; esgeulustod; deddfwriaeth iechyd a diogelwch; deddfwriaeth cydraddoldeb; hawliau dynol; diogelu data a chyfiawnder naturiol ac unrhyw risgiau canfyddedig i'r troseddwr honedig, y dioddefwr honedig neu'r gymuned ehangach.

8.3 Er budd cyfiawnder naturiol, bydd hawl gan y troseddwr honedig i gael gwybod am yr honiadau yn ei (h)erbyn oni bai fod gwneud hynny yn niweidiol i ddiogelwch y troseddwr honedig neu'n groes i gyngor Gwasanaeth Erllyn y Goron/yr heddlu. Yn yr achosion hyn, gellir cymryd camau rhagofalus cyn hysbysu'r cyhuddedig am yr honiad.

8.4 Mewn sefyllfaoedd eithriadol, fel cam rhagofalus, gall fod yn angenrheidiol i wahardd y troseddwr honedig dros dro o'r Brifysgol. Dirprwy Is-Ganghellor yn unig all benderfynu gwahardd a dim ond os oes lefel ganfyddedig uchel o risg ac nad oes camau eraill posibl i liniau'r risg ganfyddedig. Gwaherddir yn amodol ar adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd er mwyn

sicrhau ystyriaeth i newidiadau yn amgylchiadau'r achos. Bydd cefnogaeth academaidd briodol a chefnogaeth fel arall yn cael eu darparu i'r myfyriwr a bydd yn cael ei hysbysu'n rheolaidd o gamau ymchwiliad y Brifysgol.

## **9 Cadw cofnodion**

- 9.1 Dylai unigolion fod yn ymwybodol y gellid galw ar staff i fod yn dystion mewn unrhyw achosion cyfreithiol neu ddisgyblu, a disgwylir i'r staff felly gadw cofnodion yn nodi eu rhan yn y digwyddiad. Rhaid cadw cofnodion yn briodol yn unol â gofynion rheoli cofnodion y Brifysgol a bydd aelodau'r uwch-dîm rheoli yn cael gwybod yn rheolaidd am ddiogelwch y cofnodion.

## **10 Cyfrinachedd**

- 10.1 Cedwir cyfrinachedd pob parti cyn belled ag sy'n bosibl, oni bai fod y Brifysgol o'r farn fod hyn yn groes i ddiogelu unigolion a/neu yn rhan o reoli risg effeithiol. Yn yr achosion hyn, ceidw'r Brifysgol yr hawl i dorri cyfrinachedd ond, wrth wneud hynny, bydd yn ystyried unrhyw niwed posibl y gallai datgelu ei achosi i'r unigolion dan sylw.

## **11 Cyngor a chefnogaeth**

- 11.1 Os gofynnir amdanynt, fe fydd y Brifysgol yn cynnig cyngor a chefnogaeth i'r dioddefwyr honedig yn ogystal â'r troseddwy honedig a thystion posibl. Bydd y cyngor a'r gefnogaeth yn cael eu teilwra ar gyfer pob achos unigol.
- 11.2 Gall yr un tîm/adran ddarparu cefnogaeth i'r dioddefwyr honedig a'r troseddwy honedig ond, lle y bo modd, rhaid sicrhau gwahanol aelodau o'r tîm/adran.
- 11.3 Dylid cymryd gofal rhag dyblygu swyddogaeth asiantaethau allanol, a'r gefnogaeth a ddarperir ganddynt. Lle bo'n briodol, fodd bynnag, bydd y Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol (gan gyfeirio pobl atynt yn ôl yr angen) i gefnogi unigolion, â chaniatâd fel arfer (ond nid o anghenraid) yr unigolion dan sylw (gweler paragraff 10 uchod).

## Atodiad 1: Ymddygiad sy'n groes i Urddas a Pharch

(Nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr a bydd mathau eraill o ymddygiad sy'n groes i urddas a pharch yn cael eu hystyried yr un mor ddifrifol)

Diffinnir aflonyddu fel sylwadau neu ymddygiad nas dymunir ac a ystyrir yn ddiraddiol ac yn annerbyniol gan y derbynydd neu gan unigolion rhesymol. Mae'n berthnasol i oed, anabledd, pennu rhyw, hil, crefydd neu gred, rhyw (rhywedd), cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, neu unrhyw nodwedd bersonol y myfyriwr unigol. Gall fod yn fwriadol neu fel arall; yn ddigwyddiad parhaus neu neilltuol.

Mae aflonyddu rhywiol yn cyfeirio at sylwadau rhywiol nas dymunir, gwahoddiadau rhywiol, ensyniadau ac ystumiau sarhaus, yn cynnwys gweiddi ar draws, teimlo, gwasgu neu smacio corff unigolyn. Mae'n cynnwys hefyd dynnu dillad heb ganiatâd, neu unigolyn/unigolion yn dinoethi yn anweddus heb ganiatâd; cyffyrddiad corfforol amhriodol, dangos deunydd dinoethol (ar bapur neu'n electronig), jôcs amhriodol o natur rhywiol, ceisiadau neu awgrymiadau anweddus.

Mae aflonyddu ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn cynnwys sylwadau neu jôcs homoffobig, bygythiadau i ddatgelu rhywioldeb, lledaenu sion maleisus neu gwestiynau amhriodol ynglŷn â gweithgarwch rhywiol.

Mae aflonyddu ar sail hunaniaeth ryweddol yn cynnwys dangos deunydd yn amhriodol sy'n diraddio rhywedd penodol, megis deunydd comig neu fath arall o ddeunydd gweladwy; sylwadau sy'n diraddio rhywedd, megis jociâu neu straeon amhriodol (yn enwedig os ydynt wedi'u cyfeirio at unigolyn penodol neu grŵp penodol o bobl); sarhadau neu weithgareddau dilornus sydd wedi'u cyfeirio at unigolion ar sail eu rhywedd; sylwadau sy'n parhau ar ôl i'r unigolyn ofyn iddynt beidio â gwneud sylwadau o'r fath, neu gyfleu iddynt fod y sylwadau'n sarhaus; cyswllt corfforol, ymosod neu ymyrraeth â'r unigolyn oherwydd materion rhyweddol.

Mae aflonyddu hiliol yn ymddygiad sy'n sarhau'r sawl sy'n ei ddiodef ac yn cynnwys galw enwau sarhaus, jôcs, sylwadau neu ymddygiad amhriodol ar sail canfyddiad o hil, lliw croen, cenedligrwydd neu ethnigrwydd.

Mae aflonyddu pobl anabl yn ymwneud ag ymddygiad corfforol neu syllu diangen nas gwahoddir, cwestiynau amhriodol neu ragdybiaethau am effaith anabledd unigolyn.

Gellir disgrifio bwlio fel ymddygiad tramgwyddol, bygythiol, maleisus neu sarhaus; cam-drin neu gamddefnyddio grym drwy fwriadu tanseilio, cywilyddio, pardduo neu anafu'r dioddefwr. Nid oes yn rhaid dangos bwriad i fwlio, dim ond fod bwlio wedi digwydd.

Mae trais yn y cartref yn cyfeirio at gam-drin o fewn i bob math o berthnasau agos neu deuluol. Gall fod yn gam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol neu emosiynol a gall fod yn gam-drin gwirioneddol, yn ymgais i gam-drin neu fygythiad o gam-drin. Gall y cam-drin ddechrau ar unrhyw adeg, mewn perthnasau newydd, neu ar ôl sawl blwyddyn gyda'i gilydd.

Cyswllt nas dymunir parhaol yw stelcio megis dilyn rhywun, eu gwyllo neu sbio arnynt, gadael negeseuon llais sy'n codi ofn yn barhaus, neu negeseuon drwy e-bost neu neges destun neu drwy fynnu cyswllt drwy unrhyw ddull, yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol. Gall yr ymddygiad ymddangos yn ddiwed fel achos unigol ond o ddigwydd dro ar ôl tro mae'n bosibl y bydd yr ymddygiad yn cyfyngu ar ryddid y dioddefwr ac yn codi ofn sylweddol, aflonyddu neu ofid.

Mae seiberfwlio yn cynnwys rhwydweithio cymdeithasol camdriniol, anfon negeseuon e-bost â chynnwys bygythiol neu amhriodol, neu gopïo negeseuon e-bost i drydydd parti sy'n amherthnasol i'r drafodaeth.

Diffinnir digwyddiad casineb fel unrhyw ddigwyddiad a ystyrir gan y dioddefwr, neu rywun arall, fel rhagfarn rhywun tuag atynt oherwydd (ond heb fod wedi'i gyfyngu i) hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu oherwydd eu bod yn drawsrywiol.

Trosedd casineb yw digwyddiad casineb sy'n cyrraedd trothwy trosedd.

Cyswllt rhywiol anghydsyniol yw cam-drin yn rhywiol. Gall cam-drin yn rhywiol ddigwydd i ddynion neu fenywod a gall gynnwys galw enwau'n ddirmygus, gwrthod defnyddio dulliau atal cenhedlu, achosi poen corfforol diangen yn fwriadol yn ystod rhyw, trosglwyddo clefydau neu heintiau rhywiol yn fwriadol a defnyddio gwrthrychau, tegantau, neu eitemau eraill heb ganiatâd i achosi poen neu gywilydd.

## **Atodiad 2: Aelodau Panel ar gyfer Camau Rhagofalus (fel sy'n briodol ar gyfer pob achos).**

Nid yw'r rhestr yn holl gynhwysfawr a gall y penaethiaid perthnasol enwebu dirprwy i fynychu ar eu rhan

- Dirprwy Is-ganghellor
- Pennaeth Gwasanaethau Cymorth a Gyrfaedd i Fyfirwyr neu ddirprwy
- Pennaeth yr Adran Academaidd neu ddirprwy Pennaeth y Neuaddau Preswyl neu ddirprwy
- Pennaeth Rheoli Adnoddau neu ddirprwy
- Cyfarwyddwr Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd neu ddirprwy
- Cyfarwyddwr Cyfathrebu neu ddirprwy
- Cofrestrydd Academaidd neu ddirprwy
- Uwch Diwtor
- Aelodau eraill o staff perthnasol neu unigolion sy'n berthnasol yn ôl manylion penodol yr achos dan sylw